# Gweledigaeth thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2024

HOLOCAUST MEMORIAL DAY TRUST

*Learning from genocide - for a better future*

# Bregusrwydd Rhyddid

*'Dyna pryd y dechreuodd y trafferthion i'r Iddewon. Cafodd ein rhyddid ei gyfyngu'n ddifrifol gan gyfres o orchmynion gwrth-Iddewig.'*

**– Anne Frank, cofnod yn ei dyddiadur, dydd Sadwrn 20 Mehefin, 1942 – gan fyfyrio ar Fai 1940 pan gyrhaeddodd yr Almaenwyr yr Iseldiroedd**



Ffensys weiren bigog yn Auschwitz-Birkenau © Chris Jackson / Getty

## 1. Cyflwyniad

Mae rhyddid yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Yr hyn sy'n amlwg yw, ym mhob hil-laddiad sydd wedi digwydd, bod rhyddid y rhai sydd wedi'u targedu i'w herlid wedi ei gyfyngu a'i ddileu, cyn i lawer ohonynt gael eu llofruddio. Mae hon yn broses gynnil ac araf yn aml. Mae **deg cam hil-laddiad,** fel y nodwyd gan yr Athro Gregory Stanton, yn dangos nad yw hil-laddiad byth yn digwydd ar hap. Mae yna set o amgylchiadau sy'n digwydd, neu sy'n cael eu creu bob tro, i greu'r hinsawdd lle gall hil-laddiad ddigwydd a lle gall cyfundrefnau tramgwyddwyr ddileu rhyddid y rhai y maent yn eu targedu.

Nid yn unig y mae cyfundrefnau tramgwyddwyr yn erydu rhyddid y bobl maen nhw'n eu targedu, gan ddangos pa mor fregus yw rhyddid, maent yn cyfyngu ar ryddid eraill o'u cwmpas hefyd, er mwyn atal pobl rhag herio'r drefn. Er gwaethaf hyn, ym mhob hil-laddiad mae yna rai sy'n peryglu eu rhyddid eu hunain i helpu eraill, i warchod rhyddid pobl eraill neu i wrthwynebu'r drefn.

Mae Diwrnod Cofio'r Holocost 2024 yn nodi 30 mlynedd ers yr hil-laddiad yn erbyn y Tutsi yn Rwanda. 49 mlynedd ar ôl i'r Holocost ddod i ben, 19 mlynedd ar ôl yr hil-laddiad yng Nghambodia, safodd y byd o'r neilltu wrth i eithafwyr Hutu chwalu'r rhyddid bregus yn Rwanda, yn dilyn degawdau o densiwn a thrais, gan arwain at ladd dros filiwn o Tutsis mewn dim ond can niwrnod.

## 2. Erydu rhyddid

Mae rhyddid yn fregus ac ni ellir ei gymryd yn ganiataol. Dyma rai enghreifftiau o ffyrdd y cyfyngir ar ryddid pobl a dargedir yn ystod hil-laddiad, gan ddangos pa mor fregus yw rhyddid a sut na ddylem fod yn hunanfodlon yn ei gylch.

### Rhyddid crefyddol a rhyddid i ddewis hunaniaeth

Ym 1933 daeth y Natsïaid i rym yn yr Almaen, a daeth bywyd yn fwyfwy anodd i Iddewon Almaenig. Pasiwyd deddfwriaeth gwrth-Iddewig, a oedd yn gwadu rhyddid o bob math i Iddewon a chyfyngu ar eu hawliau, gan ddechrau trwy eu hatal rhag gweithio mewn proffesiynau penodol ac ysgolion a phrifysgolion. Ym 1935, fe wnaeth Deddfau Nuremberg gyfyngu ar bwy y gallai Iddewon briodi, ac aeth ymhellach na hynny: fe wnaethon nhw ddiffinio unrhyw un a oedd â thri neu bedwar o neiniau a theidiau Iddewig fel Iddewon, ni waeth a oedd y person hwnnw'n ystyried ei hun yn Iddew ai peidio. Felly roedd deddfau Nuremberg yn dileu rhyddid crefyddol a rhyddid pobl i ddewis eu hunaniaeth. Ar 9 Tachwedd 1938, ymosodwyd ar siopau a busnesau Iddewig yn nhiriogaethau'r Natsïaid, a'u dinistrio. Daeth y noson yn adnabyddus fel Kristallnacht - y noson grisial. Cafodd pobl Iddewig eu gwahardd o sinemâu, theatrau a chyfleusterau chwaraeon.



Dinistriwyd siopau a busnesau Iddewig yn ystod y Noson Grisial ym 1938
© Bettmann / Getty

Wrth i fyddin yr Almaen ysgubo ar draws Ewrop a dechrau meddiannu gwledydd Ewropeaidd, yn aml cyfyngwyd ar ryddid y bobl Iddewig yn y gwledydd hynny: fe'u gorfodwyd i fyw mewn getos, gan fyw dan amodau cyfyng tu hwnt a'u gorfodi'n aml i wneud llafur caled ar ran y Natsïaid neu ddiwydiannau'r Almaen; cawsant eu caethgludo i wersyll-garcharau neu wersylloedd difodi. Mae cael eich carcharu neu gaethiwo yn gwbl groes i ryddid. Ac roedd hyn yn syml oherwydd eu bod yn Iddewig.

Wedi i'r Almaenwyr gyrraedd yr Iseldiroedd, ysgrifennodd, **Anne Frank** yn ei dyddiadur:

*'Dyna pryd y dechreuodd y trafferthion i'r Iddewon. Cafodd ein rhyddid ei gyfyngu'n ddifrifol gan gyfres o orchmynion gwrth-Iddewig: roedd yn ofynnol i Iddewon wisgo seren felen; roedd yn ofynnol i Iddewon ildio eu beiciau; gwaharddwyd Iddewon rhag defnyddio tramiau; roedd Iddewon yn cael eu gwahardd rhag teithio mewn ceir, hyd yn oed eu rhai eu hunain; roedd yn ofynnol i Iddewon wneud eu siopa rhwng 3.00 a 5.00pm.; roedd yn ofynnol i Iddewon fynd i siopau barbwr a salonau harddwch Iddewig yn unig; gwaharddwyd Iddewon rhag bod allan ar y strydoedd rhwng 8.00 p.m. a 6.00 a.m.; gwaharddwyd Iddewon rhag mynd i theatrau, sinemâu neu unrhyw fath arall o adloniant; gwaharddwyd Iddewon rhag defnyddio pyllau nofio, cyrtiau tenis, caeau hoci neu unrhyw gaeau athletaidd eraill; gwaharddwyd Iddewon rhag mynd i rwyfo; gwaharddwyd Iddewon rhag cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd athletaidd yn gyhoeddus; gwaharddwyd Iddewon rhag eistedd yn eu gerddi neu rai eu cyfeillion ar ôl 8.00 p.m.; gwaharddwyd Iddewon rhag ymweld â Christnogion yn eu cartrefi; roedd yn ofynnol i Iddewon fynychu ysgolion Iddewig, ac ati. Allech chi ddim gwneud hyn ac allech chi ddim gwneud y llall, ond roedd bywyd yn mynd yn ei flaen'.*

Aeth Anne a'i theulu i guddio, ond cawsant eu bradychu a bu farw Anne yng Ngwersyll-garchar Bergen-Belsen, dri mis cyn ei phen-blwydd yn 16 oed.

## Rhyddid i atgenhedlu

Fel rhan o raglen ewthanasia T4 fe wnaeth y Natsïaid sterileiddio cannoedd o filoedd o bobl oherwydd eu bod yn anabl neu'n cael eu hystyried yn anabl, yn gorfforol neu'n feddyliol. Cymerwyd rhyddid Franziska Mikus i atgenhedlu oddi arni gan y Natsïaid, gan ei sterileiddio nid unwaith ond ddwywaith, dim ond oherwydd ei bod yn fyddar.

*'Gyda chalon drom bu'n rhaid i mi gael fy sterileiddio'r eildro. Dyma'r peth mwyaf creulon y bu'n rhaid i mi ei ddioddef erioed. Fydda i byth yn gallu anghofio hynny.'*

Darllenwch stori lawn bywyd Franziska yn **hmd.org.uk/franziska.**

## Rhyddid i symud

Yn hil-laddiad 1994 yn erbyn y Tutsi yn Rwanda, chwalwyd rhyddid Eric Murangwa Eugène MBE i symud ar ôl i'r awyren a oedd yn cludo Arlywydd Rwanda gael ei saethu i lawr ar 6 Ebrill 1994. Roedd darllediadau radio yn mynnu bod pobl yn aros yn eu cartrefi tra bod milwyr yn chwalu drysau ffrynt eu cartrefi i ddod o hyd i'r rhai roedden nhw'n eu hystyried yn 'gyfrifol'. Roedd mynnu bod pobl yn aros adref yn galluogi tramgwyddwyr i ddod o hyd i'w grwpiau targed.

Darllenwch stori lawn bywyd Eric yn **hmd.org.uk/eric**.

Ym 1992, roedd Kemal Pervanić yn un o lawer o ddynion Mwslimaidd Bosniaidd a garcharwyd yng Ngwersyll-garchar drwg-enwog Omarska. Daeth un o'i gyn-athrawon ysgol yn garcharwr arno. Collodd Kemal ei ryddid: roedd pob agwedd ar ei fywyd yn cael ei rheoli, roedd amodau byw'n erchyll ac roedd yn dioddef cael ei guro a gwrthod hanfodion iddo.

Gallwch ddarllen mwy am ei fywyd yn **hmd.org.uk/kemal**.

## Rhyddid ffug

Yn aml mae cyfundrefnau troseddwyr yn cuddio eu gweithredoedd hil-laddol yn fwriadol ac yn camarwain y rhai y maent yn eu targedu, i'w cadw'n dawel, er enghraifft, ac i atal gwrthryfeloedd, gan greu ymdeimlad o ryddid ffug ymhlith y rhai sy'n cael eu herlid. Roedd y giatiau mewn sawl gwersyll-garchar, gan gynnwys Auschwitz-Birkenau, yn croesawu carcharorion gyda'r slogan enwog *'Arbeit Macht Frei'*, sy'n golygu'n llythrennol 'mae gwaith yn rhoi rhyddid i chi', ond roedd hyn ymhell o'r gwir.

Ym 1981, ar ôl goroesi'r hil-laddiad yn Cambodia, dysgodd Var Ashe Houston BEM mewn llythyr gan ffrind fod ei gŵr, Virak Phong, wedi hedfan yn ôl i Phnom Penh yn gynnar ym 1976 gyda channoedd o ddeallusion Khmer eraill. Dywedwyd wrth y grŵp y gallai'r gyfundrefn gomiwnyddol dan arweiniad Pol Pot ddefnyddio eu sgiliau i ailadeiladu'r wlad, ond nid oedd hyn yn wir. Mewn gwirionedd, fe'u carcharwyd ar ôl cyrraedd Phnom Penh. Bu farw Virak Phong yn y carchar y flwyddyn honno.

Gallwch ddarllen mwy am fywyd Var yn **hmd.org.uk/var**.

Dywedodd y Khmer Rouge wrth Sokphal Din BEM ei fod yn mynd i adael y gwersyll llafur yr oedden nhw wedi'i garcharu ynddo, iddo gael ailymuno â gweddill ei deulu. Roedd Sokphal yn amheus, ond yn gyffrous. Fodd bynnag, byrhoedlog oedd ei optimistiaeth. Aeth y Khmer Rouge â Sokphal i berfeddion y jyngl lle cafodd ei adael heb fwyd, dŵr nac offer i'w helpu i oroesi. Roedd y Khmer Rouge wedi dweud celwydd a sylweddolodd Sokphal na fyddai byth yn gweld ei dad eto.



Sokphal Din BEM yn dal llun o'i fam, wedi'i dynnu mewn gwersyll ffoaduriaid yng Ngwlad Thai

Gallwch ddarllen mwy am fywyd Sokphal yn **hmd.org.uk/sokphal.**

Yn aml mae opsiynau cyfyngedig ar gael i bobl sy'n ceisio ffoi rhag erledigaeth gan fod eu rhyddid wedi'i gyfyngu. Bu'n rhaid i Iddewon oedd yn ceisio gadael yr Almaen yn y 1930au, er enghraifft, dalu treth ymfudo cynyddol drom a daeth cael gafael ar fisa'n gynyddol anodd.

Fe wnaeth El Sadiq 'Debay' Mahmoud Manees ffoi rhag erledigaeth yn Sudan, gan ddewis *'mynd ar draws Môr y Canoldir – gan obeithio y byddai naill ai'n gallu byw mewn heddwch, neu'n marw'* Nid oedd hyn yn benderfyniad hawdd i'w wneud, ond pe bai Debay wedi aros yn Sudan, byddai bron yn sicr wedi cael ei lofruddio. Roedd Debay'n fwy ffodus na llawer o rai eraill a roddodd gynnig ar y daith. Cafodd ei achub a'i gludo i'r Eidal, lle bu'n cysgu yn yr awyr agored. Cafodd daith hir ac anodd drwy Ewrop, gan fethu dod o hyd i waith na diogelwch, nes iddo gyrraedd y DU yn y pen draw lle hawliodd loches. Heddiw, mae Debay'n byw yn y DU, ac roedd yn weithiwr allweddol yn ystod pandemig y coronafeirws yn 2020. Mae'n ddiolchgar ei fod yn ddiogel, ond mae ei ryddid yn teimlo'n anghyflawn am nad yw'n gallu bod gyda'i deulu yn Sudan. Medai, *'Mae fy nghalon yn fy mhentref a'r gwersylloedd ffoaduriaid gyda'r rhai a adewais yn Darfur o hyd.'*

Gallwch ddarllen mwy am fywyd Debay yn **hmd.org.uk/debay**.

## Rhyddid mynegiant

Yn aml mewn hil-laddiad, mae rhyddid mynegiant pobl wedi'i gyfyngu a'i lesteirio, gyda chyfryngau a reolir gan y wladwriaeth yn sicrhau bod propaganda'n cael ei fwydo i'r boblogaeth gyffredinol. Yn aml mae'r rhai sy'n codi llais yn cael eu carcharu neu eu llofruddio. Dywedodd Jean Baptiste Kayigamba, un a oroesodd yr hil-laddiad yn erbyn y Tutsi yn Rwanda, sydd bellach yn byw yn y DU:


*'Roedd casineb drwg-enwog Radio Télévision Libre des Mille Collines yn chwydu ei wenwyn yn erbyn y Tutsis, gan eu beio am lofruddio'r arlywydd.'*

Hyd yn oed ar ôl i hil-laddiadau ddod i ben ac i gymdeithasau gael eu hail-adeiladu, efallai na fydd goroeswyr sy'n ymgartrefu mewn gwledydd gwahanol yn cael mynegi eu hunain yn rhydd wrth i gyfundrefnau newydd ymaddasu i'r gorffennol, a phan gall perthnasau yn y wlad gartref fod yn wynebu perygl o hyd.

## Rhyddid i fyw

Hil-laddiad yw'r amlygiad eithaf o drais sy'n rhoi terfyn ar ryddid i fyw. Yn ystod yr Holocost, cafodd chwe miliwn o Iddewon – dynion, menywod, plant a babanod – eu llofruddio'n greulon mewn caeau, getos, gwersylloedd-garcharau a gwersylloedd marwolaeth. Mewn hil-laddiadau mwy diweddar, mae nifer fawr o bobl wedi cael eu llofruddio dim ond oherwydd eu ffydd, ethnigrwydd, neu fath arall o hunaniaeth.

Isod: Cofeb a Mynwent Srebrenica-Potoari ar gyfer y rhai a lofruddiwyd yn ystod yr hil-laddiad yn Srebrenica, Bosnia © Giles Clarke / Getty



## 3. Peryglu rhyddid

Nid dim ond y rhai sydd wedi'u targedu'n uniongyrchol i'w herlid y mae cyfundrefnau tramgwyddus yn effeithio ar eu rhyddid. Peryglodd Vali Rácz ei rhyddid a'i bywyd i achub Iddewon yn Hwngari yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Er ei bod yn gwybod y byddai'n debygol o gael ei llofruddio pe bai'n cael ei dal, adeiladodd bared ffug mewn cwpwrdd dillad mawr i guddio pobl. Cafodd ei harestio sawl gwaith ond heb unrhyw brawf ei bod yn cuddio Iddewon, cafodd ei rhyddhau.


Vali Rácz, a roddodd ei bywyd yn y fantoli achub Iddewon yn ystod yr Holocost © Monica Porter

Gwrandewch ar bodlediad gyda Monica Porter, merch Vali Rácz, yn **hmd.org.uk/vali**.

Er gwaetha'r golygfeydd erchyll oedd yn digwydd ar draws Rwanda roedd yna weithredoedd dewr tu hwnt hefyd. Roedd Sula Karuhimbi yn fenyw oedrannus a oedd yn byw ar ei phen ei hun ar fferm fach ac roedd ganddi wybodaeth am feddyginiaethau naturiol. Pan ddechreuodd yr hil-laddiad fe guddiodd dros 20 o'r Tutsis yn ei sied anifeiliaid a'u bwydo o'i stoc fach o lysiau. Pan ddaeth ymosodwyr i'w fferm defnyddiodd yr enw oedd ganddi fel 'gwrach' i'w dychryn ac amddiffyn y bobl a oedd yn cuddio, gan beryglu ei rhyddid drwy wneud hynny.

Heriodd pum myfyriwr o Brifysgol München ac un o'u hathrawon drefn y Natsïaid trwy ffurfio grŵp y Rhosyn Gwyn. Gofynnon nhw i bobl yr Almaen ymateb i'r trais a'r gormes oedd o'u cwmpas trwy sefyll i fyny ac ymladd dros ryddid. Er eu bod wedi llwyddo i ledaenu eu negeseuon, cafodd holl aelodau'r grŵp Rhosyn Gwyn eu dienyddio gan y Natsïaid, a oedd am rybuddio unrhyw un arall rhag brwydro dros ryddid.

Darllenwch fwy am grŵp y Rhosyn Gwyn yn **hmd.org.uk/whiterose**.

## 4. Rhyddhau ond nid cwbl rydd

Ceir camargraff bod rhyddhau o drefn dramgwyddus yn golygu diwedd ar ddioddefaint a dechrau bywyd rhydd. Er i ryddhawyr y gynghrair ryddhau goroeswyr yr Holocost o'u caethiwed corfforol yn y gwersylloedd-garcharau, a'r amodau ofnadwy, roedd y carcharorion ar eu pennau eu hunain wedyn, yn aml yn methu dychwelyd adref, a gorfod symud i wlad newydd, dysgu iaith newydd ac ailadeiladu eu bywydau o'r cychwyn. Bu'n rhaid iddynt ailadeiladu bywydau newydd yn absenoldeb poenus aelodau o'u teuluoedd a ffrindiau. Mae llawer wedi disgrifio'r blynyddoedd ar ôl cael eu rhyddhau fel 'bod yn rhydd yn gorfforol, ond heb fod yn rhydd yn feddyliol.'

Dywedodd un o'r rhai a oroesodd yr Holocost, Esther Brunstein:

*'Roedd y dyddiau cyntaf ar ôl cael ein rhyddhau yn llawen ac eto'n drist, yn ddryslyd ac yn peri penbleth. Doeddwn i ddim yn gwybod sut i ymdopi â rhyddid ar ôl blynyddoedd o garchar poenus.'*

Darllenwch stori lawn bywyd Esther yn **hmd.org.uk/esther**.

Fel y nododd Otto Rosenberg, a gafodd ei erlid gan y Natsïaid am ei fod yn Sinti, roedd yn anodd mwynhau rhyddid gan wybod bod aelodau ei deulu wedi cael eu llofruddio:

*'Maen nhw'n dweud: "mae'ch rhyddid gennych chi nawr, byddwch yn hapus". Doedd dim modd yn y byd y gallwn i fod yn llawen, oherwydd roeddwn i'n gweld eisiau fy mrodyr a'm chwiorydd, drwy'r amser, hyd heddiw. Pan ddaeth y gwyliau a phobl yn dathlu, neu'r teuluoedd yn eistedd gyda'i gilydd, dyna pryd y daeth y peth mewnol yma, y straen nerfus yma. Roedd hynny'n anodd iawn.'*

Darllenwch stori lawn ei fywyd yn **hmd.org.uk/otto**.



Otto Rosenberg (yn y blaen) gyda'i fam a'i frodyr a'i chwiorydd – llofruddiwyd llawer ohonynt gan y Natsïaid

Yn wir, ni chafodd dynion hoyw a garcharwyd gan y Natsïaid y rhyddid yr oeddent wedi gobeithio amdano gan eu bod yn dal i gael eu hystyried yn droseddwyr ar ôl cael eu rhyddhau ac ni fyddent yn ddiogel rhag cael eu herlyn tan 1968.

Darllenwch fwy am erledigaeth pobl hoyw a'r hyn ddigwyddodd wedyn **hmd.org.uk/gay-people**.

Dim ond oherwydd bod un person wedi'i ryddhau, nid oedd yn golygu bod gweddill y teulu'n ddiogel. Fel yr eglura Sabit Jakupović, goroeswr yr hil-laddiad yn Bosnia:

*'A dyna oedd un o'r adegau anoddaf oherwydd roeddwn i'n teimlo'n ddiogel, ac roeddwn i'n teimlo ar goll. Ro'n i mewn gwlad hollol wahanol, tywydd gwahanol, iaith wahanol. Yna cofiais fy mod i wedi gadael fy mrodyr ar ôl. Roedd yr emosiynau hynny'n fy rhwygo'n ddarnau; allwch chi ddim mwynhau'r rhyddid gan fod y rhyfel yn dal i ddigwydd.'*

Darllenwch stori lawn bywyd Sabit yn **hmd.org.uk/sabit**.

## 5. Mwynhau rhyddid

Llwyddodd rhai goroeswyr i fwynhau eu rhyddid. Ar ôl goroesi getos, gwersylloedd-garcharau ac ymdaith marwolaeth, daeth goroeswr yr Holocost, Alec Ward, i Loegr. Meddai:

*'Roedden ni'n byw yn Southampton am gyfnod lle wnes i wirioni ar y rhyddid yn Lloegr. Roeddwn i'n gallu cerdded yn rhydd lle bynnag roeddwn i eisiau, roeddwn i'n gallu reidio beic ac roedd pawb mor garedig a chymwynasgar.'*

Darllenwch hanes llawn ei fywyd yn **hmd.org.uk/alec**.

## 6. Bregusrwydd rhyddid

I rai goroeswyr, mae rhyddid ar ôl hil-laddiad yn parhau i fod yn rhywbeth a all gael ei ddwyn oddi arnynt bob amser. Mae gwadu a cham-lywio'n dilyn pob hil-laddiad, ac mae hynny ar gynnydd pan fo gwledydd yn ceisio ail-lunio eu gorffennol. Mae ystumio'r Holocost a gwrth-semitiaeth (casineb gwrth-Iddewig) wedi bod yn bresennol ers diwedd yr Ail Ryfel Byd ac maent yn parhau i fod yn gyffredin heddiw.

Adeiladodd Leon Greenman fywyd yn y DU ar ôl goroesi Auschwitz, dim ond i ddioddef ymosodiad gwrth-semitig ar ei gartref yn Llundain yn y 1990au.

Doedd Antoinette Mutabazi ddim yn teimlo'n rhydd i ddychwelyd i'w phentref genedigol ar ôl yr hil-laddiad yn erbyn y Tutsi yn Rwanda pan glywodd fod un o'r troseddwyr wedi cael ei ryddhau o'r carchar a'i fod wedi dychwelyd i'r pentref.

## 7. Rhyddid heddiw

Heddiw mae llawer o bobl mewn gwledydd democrataidd yn y gorllewin yn cymryd rhyddid yn ganiataol – ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost, gallwn fyfyrio ar sut mae angen gwerthfawrogi'r rhyddid hwn, ac ar faint o bobl ledled y byd sy'n wynebu cyfyngiadau i'w rhyddid i fyw, addoli, gweithio a charu'n rhydd.

Er enghraifft, mae Mwslimiaid Uyghur yn Tsieina yn wynebu adleoli gorfodol i dalaith Xinjiang, 'ail-addysg' sy'n bygwth dileu'r diwylliant Uyghur, a chyfyngiadau eraill ar fynegiant rhydd, rhyddid i symud a rhyddid i addoli.

Mae cannoedd o filoedd o Fwslimiaid Rohingya'n byw mewn gwersylloedd ffoaduriaid ym Mangladesh, ar ôl dianc rhag erledigaeth grefyddol ym Myanmar.

Mae gwrthdaro'n parhau yn rhanbarth Darfur yn Sudan. Mae goroeswyr yr hil-laddiad, sy'n ddiogel yn y DU erbyn hyn, yn bryderus iawn am ddiogelwch aelodau o'u teuluoedd sydd yn Darfur o hyd, ac ofn siarad yn gyhoeddus yn y DU rhag i fywydau aelodau eu teuluoedd gael eu bygwth.

## 8. Diwrnod Cofio'r Holocost 2024

Mae sylw Anne Frank, a ddyfynnwyd uchod, yn dod i'r casgliad '*Allech chi ddim gwneud hyn ac allech chi ddim gwneud y llall, ond roedd bywyd yn mynd yn ei flaen*'. Ond wrth gwrs, i Anne, a miliynau o bobl eraill, nid mynd yn ei flaen wnaeth bywyd – cawsant eu llofruddio'n fwriadol. Gan adeiladu ar y cyfyngiadau niferus ar eu rhyddid, dinistriwyd eu rhyddid i fyw.

Ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost 2024, gall pob un ohonom fyfyrio ar sut mae rhyddid yn fregus ac mor hawdd ei gam-drin. Wrth i ni ddod at ein gilydd mewn cymunedau ledled y DU, gadewch i ni addo peidio â chymryd ein rhyddid yn ganiataol, ac ystyried yr hyn y gallwn ni ei wneud i gryfhau rhyddid ledled y byd.

## Darllen Pellach

Yn ogystal â'r dolenni yn y papur hwn, argymhellir y canlynol:


- Ein casgliad o **straeon bywyd** oam bobl sydd wedi'u heffeithio gan yr Holocost a hil-laddiad
- **Deg cam hil-laddiad**
- Anne Frank, *The Diary of a Young Girl,* gol. gan Otto Frank a Mirjam Pressler, cyfieithwyd gan Susan Massotty (Penguin Books, 2001)
- Horst Biesold, *Crying Hands: Eugenics and Deaf People in Nazi Germany* (Gallaudet University Press, 1999)
- Var Hong Ashe, *From Phnom Penh to Paradise: Escape from Cambodia* (Hodder and Stoughton, 1988)
- Sokphal Din, *The Killing Fields of Cambodia: Surviving a Living Hell* (Amsterdam Publishers, 2020)
- Otto Rosenberg, *A Gypsy in Auschwitz: How I Survived the Horrors of the 'Forgotten Holocaust'*, gydag Ulrich Enzenberger, cyfieithwyd gan Maisie Musgrave (Octopus Publishing Group, 2022)


@HMD_UK HMD.UK @holocaustmemorialdaytrust



Rhagor o wybodaeth...

Edrychwch ar ein gwefan am adnoddau ar y thema hon, gan gynnwys straeon bywyd, adnoddau ar gofio Diwrnod Cofio'r Holocost, awgrymiadau ar gyfer darllen pellach a dolenni i chwaer sefydliadau: **hmd.org.uk**


hmd.org.uk
enquiries@hmd.org.uk
020 7785 7029

@hmd_uk
hmd.uk
@holocaustmemorialdaytrust


Dysgu o hil-laddiad – er budd dyfodol gwell